



Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

13 Mawrth 2024

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

Please provide the following:-

All information relating to the appointment of the Public Service Ombudsman for Wales including any advertisements, long listing, short listing and interviewing .

Who places the advert and draws up the long and short lists

Who conducts the interviews

Who selects the successful candidate to put forward

I understand the King makes the appointment but the successful candidate is nominated by the Senedd.

Gweler yr ymateb isod.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn benodiad y Goron a wneir ar enwebiad y Senedd o dan Atodlen 1 **i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.**

Mae gwybodaeth ychwanegol am benodiadau cyhoeddus a wneir gan y Senedd i'w gweld o dan Reol Sefydlog 10, ac yn benodol mewn perthynas â'r Ombwdsmon o dan Reol Sefydlog 18A. **<https://senedd.wales/media/zp1nyrfq/so-cym.pdf>**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Mae'r broses ar gyfer penodi'r Ombwdsmon presennol wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn:
<https://busnes.senedd.cymru/documents/s121599/Adroddiad%20y%20Pwyllgor%20Cyllid%20Enwebu%20Ombwdsmon%20Gwasanaethau%20Cyhoeddus%20-%20Ionawr%202022.pdf>

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF